Home Office

6th Floor Fry Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF
Switchboard 0870 0001585
www.homeoffice.gov.uk

31 Awst 2005

PAPUR YMGYNGHORI AR BWERAU SAFONOL I SWYDDOGION CYMORTH CYMUNEDOL

Mae'r Swyddfa Gartref yn ceisio eich barn ar gynigion i sefydlu pwerau safonol i Swyddogion Cymunedol. Mae copïau o'r ddogfen ymgynghorol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar safle'r Swyddfa Gartref ar www.homeoffice.gov.uk Mae copïau caled ar gael hefyd trwy ofyn amdanynt i Rebecca Sims ar 020 7035 1863. Ceir gweld rhestr o rhanddeiliaid sydd wedi anfon copïau caled ar ddiwedd y papur ymgynghorol. Os credwch ein bod wedi hepgor enw, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda.

Dylid cyfeirio sylwadau ar y materion a godwyd yn y papur ymgynghorol at Rebecca Sims, Neighbourhood Policing Fund Team, 6th Floor, Fry Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF neu eu hanfon yn uniongyrchol trwy e-bost at:
csopowers@homeoffice.gsi.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer atebion yw dydd Mercher 26 Hydref 2005.

Cyhoeddir crynodeb o'r atebion o fewn tri mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad hwn ac fe'i darperir ar wefan y Swyddfa Gartref.

Sylwer: Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom i'n cydweithwyr yn y Swyddfa Gartref a/neu ei chyhoeddi mewn crynodeb o'r atebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn cymryd eich bod yn fodlon inni wneud hynny, ac os byddwch yn ateb trwy e-bost, bydd eich cydsyniad yn drech nag unrhyw ymwadiad cyfrinachedd a grëir gan system TG eich sefydliad. Fodd bynnag, byddwn yn parchu unrhyw ddymuniad am gyfrinachedd a wneir gennych ym mhrif destun eich ateb inni. Gellir rhyddhau atebion hefyd dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os ydych wedi gofyn inni wneud hynny, bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau na fydd eich syniadau'n cael eu priodoli ichi os cânt eu rhyddhau fel hyn.

Yn gywir

Caroline Hart
Cynghorydd Polisi
Tîm y Gronfa Gwaith Heddlu mewn Cymdogaethau